# Peirianneg a Gweithgynhyrchu



**Mae gan Ogledd Cymru y cwmnïau gweithgynhyrchu a pheirianneg fwyaf datblygedig yn dechnolegol yn y DU cyfan ac mae 34% o gyflogaeth Gogledd ddwyrain Cymru yn dod o weithgynhyrchu. Rydym yn gweithio'n agos gyda dros 150 o gwmnïau peirianneg a gweithgynhyrchu lleol i ddatblygu eu gweithluoedd gyda Phrentisiaethau i feithrin sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant i greu sector sy'n ffynnu.**

Bydd Prentisiaid Peirianneg yn treulio amser yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf sydd wedi'u hadnewyddu yn ddiweddar ar ein safleoedd Glannau Dyfrdwy neu Ffordd y Bers am ddiwrnod i ffwrdd o'r gwaith ac i gael eu hasesu yn ogystal â chael eu hasesu ar y safle gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Bydd angen i brentisiaid Peirianneg fod â sgiliau mathemateg a saesneg o lefel uchel yn ogystal â'r gallu i weithio'n fanwl gywir.

Rydym yn argymell cyn i chi ddechrau Prentisiaeth Peirianneg eich bod yn cofrestru ar gwrs llawn amser mewn Perfformio Gweithrediadau Peirianneg neu Lefel 3 mewn Peirianneg Uwch cyn chwilio am Brentisiaeth.

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

| Cwrs | Llwybrau | Gofynion mynediad | Hyd arferol | Dull astudio ac asesu | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 mewn Peirianneg | Peirianneg, Perfformio Gweithrediadau Peirianneg | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, TGAU Mathemateg a Saesneg gradd C neu uwch | 1 neu 2 flynedd, i'w gytuno gyda'r cyflogwr | Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod | Ffordd y Bers neu Lannau Dyfrdwy |
| Lefel 3 mewn Peirianneg | Cynnal a Chadw Peirianneg, Peirianneg Gweithgynhyrchu Mecanyddol, Cymorth Technegol Peirianneg, Peirianneg Drydanol ac Electronig, Gosod a Chomisiynu | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol, Perfformio Gweithrediadau Peirianneg / Prentisiaeth Sylfaen mewn Peirianneg, TGAU Mathemateg a Saesneg gradd C neu uwch | 24 Mis | Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod | Ffordd y Bers neu Lannau Dyfrdwy |
| Lefel 4 mewn Peirianneg | | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol Perfformio Gweithrediadau Peirianneg a/neu 2 Safon Uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Neu Ddilyniant o Brentisiaeth L3 | 24 Mis | Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod | Ffordd y Bers neu Lannau Dyfrdwy |

Canllaw **Prentisiaethau Apprenticeships** Guide

AR GYFER BUSNES CAMBRIA FOR BUSINESS

COLEG CAMBRIA

Prentisiaethau Apprenticeships

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

| Cwrs | Llwybrau | Gofynion mynediad | Hyd arferol | Dull astudio ac asesu | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 mewn Gweithgynhyrchu | | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol | 18 Mis | Asesiad yn y gwaith | Yn y gweithle |
| Diploma Lefel 2 mewn Perfformio Gweithrediadau Gweithgynhyrchu | | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol | 18 Mis | Asesiad yn y gwaith | Yn y gweithle |
| Diploma Lefel 3 mewn Gweithrediadau'r Diwydiannau Prosesu | | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol | 24 Mis | Asesiad yn y gwaith | Yn y gweithle |
| Lefel 3 mewn Gweithgynhyrchu Prosesau | | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol TGAU Mathemateg a Saesneg gradd C neu uwch | 2 flynedd | Asesiad yn y gwaith | Yn y gweithle |
| Lefel 2, 3 a 4 mewn Technegau Gwella Busnes | | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol TGAU Mathemateg a Saesneg gradd C neu uwch | 18 - 24 Mis | Asesiad yn y gwaith | Yn y gweithle |
| FdEng/BEng mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch | Trydanol, Mecanyddol | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol<br>3 cymhwyster Safon Uwch gan gynnwys B mewn Mathemateg a Ffiseg.<br>Diploma BTEC 180 credyd (Rh*Rh*Rh*)<br>HNC<br>Diploma BTEC 120 credyd (Rh*Rh*)<br>(a phrawf mynediad) | 2 - 3 blynedd | Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod | Glannau Dyfrdwy |
| FdEng/BEng mewn Peirianneg Awyrennau a Gweithgynhyrchu | Trydanol, Mecanyddol | Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol<br>3 cymhwyster Safon Uwch gan gynnwys B mewn Mathemateg a Ffiseg.<br>Diploma BTEC 180 credyd (Rh*Rh*Rh*)<br>HNC<br>Diploma BTEC 120 credyd (Rh*Rh*)<br>(a phrawf mynediad) | 2 - 3 blynedd | Asesiad yn y gwaith a rhyddhau o'r gwaith am ddiwrnod | Glannau Dyfrdwy |

## Ystadegau/disgwyliadau cyflog y diwydiant

**Mae cyflog cyfartalog peiriannydd rhwng £26,000 a £50,000 yn dibynnu ar brofiad gyda'r cyfle i gael hyd yn oed rhagor a symud ymlaen yn eich gyrfa.**

## Awgrym gorau

**Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os rydych yn chwilio am brentisiaeth neu cadwch lygad am ddigwyddiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y Coleg os rydych yn fyfyriwr llawn amser.**

Canllaw **Prentisiaethau Apprenticeships** Guide